## Fy Reid Nadolig



Felly, wnaethon ni seiclo o gartref (yn Parc Sgeti) i Blackpill i Penclacwydd ac wedyn yn ol i Sgeti. Roedd hi'n reid ardderchog. Mwynheais i achos roedd pawb yn gwisgo dillad nadolig a roedd hi'n rhwyle wahanol i seiclo ac roedd y pellaf i mi feicio erioed. Dyn ni'n credu ei fod yn 24 milltir [Gol: Roedd 24 milltir!] sydd yr un peth a seiclo i fy ysgol 13 gwaith ac ychydig, ond ar yr un pryd. Ond dim mor fryniog a seiclo i'r ysgol. Dw i'n sgorio'r bryniau allan o 10 a roedd yr un hon yn 8. Hoffais i'r bryniau: roedd rhai yn serch ond roedd pob un yn byr a dw i'n hoffi mynd allan o'r 'saddle'. Ro'n i'n reidio fy meic newydd gyda 18 gerau a dw i ddim yn credu y gallwn fod wedi ei wneud ar fy hen feic gyda 7 gerau yn unig.

Hoffais i'r rhan creigiog, lle mae'r môr wedi mynd drosodd a rhoi'r holl greigiau yno; achos roedd fy nhad a fi yn reidio beiciau mynydd, felly roedden ni gallu reidio dros fe, ond roedd rhaid i mam a thad-cu gerdded a gwthio.

Ces i ddamwain fach ar y dechrau, fel Geraint Thomas. Dw i'n sgorio fy damwain 5 allan o 10, achos doedd dim gwaed pan roedd fy meic yn cwympo ar ei ochr. Roedd hi'n reid mwdlyd iawn, o leiaf i fi, achos does dim 'mudguards' gyda fi. Nawr bydd rhaid i mam brynu rhai 'mudguards' i fi! Dw i eisiau rhai fel 'mudguards' daddy.

Roedd fy chwaer fach ar y cefn beic mummy ar y reid allan, ond pan dod yn ol mae hi wedi cael lifft gyda mam-gu yn y car; roedd hi wedi diflasu achos doedd hi ddim yn reidio. Mae hi'n gallu seiclo ond dim ond 3 oed ydy hi, a does dim gerau ar ei beic hi o gwbl, felly bid fyddai wedi ei wneud yn bendant.

Y dydd nesa, roedd fy nghoesau'n teimlo fel jeli ar ol y bryniau, achos yn y diwedd, roedd rhaid i ni reidio i fyny'r bryn mawr ar y ffordd adref. Dw i'n sgorio y reid gyfan 10 allan o 10. [Gol: yn hytrach nag 8 allan o 10 ar gyfer y bryniau.] Baswn i wneud hyn eto, yn bendant.

**Adda Norris Jones**